

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU i Argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

IONAWR 2019

Bu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 ar 15 Tachwedd 2018. Yn dilyn hynny, cwblhaodd y Pwyllgor adroddiad yn cynnwys pedwar argymhelliad. Ymateb ffurfiol y Llywodraeth i'r argymhellion hynny yw'r papur hwn.

Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw'r arian ychwanegol a ddyrannwyd yn diwallu anghenion awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer y cynnydd yng nghyflogau athrawon.

Ymateb: Derbyn

Dyrannwyd £21.8 miliwn yn ychwanegol dros ddwy flynedd (£8.1 miliwn yn 2018-19 a £13.7 miliwn yn 2019-20) ynghyd â'r Gyllideb ddrafft amlinellol i gefnogi'r dyfarniad cyflogau athrawon ysgol ar gyfer y blynyddoedd rhwng y flwyddyn feithrin a blwyddyn 11. Caiff y cyllid ar gyfer 2018-19 ei gyfeirio drwy grant penodol i awdurdodau lleol a chaiff y cyllid ar gyfer 2019-20 ei ddyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Cafodd cyllid ychwanegol o £1.705 miliwn dros ddwy flynedd (£0.631 miliwn yn 2018-19 a £1.074 miliwn yn 2019-20) ar gyfer cyflog athrawon hefyd ei ddyrannu ar gyfer cyflogau athrawon chweched dosbarth drwy'r Prif Grŵp Gwariant Addysg.

Mae'r cyllid hwn yn cwmpasu'r gwahaniaeth rhwng y dyfarniad cyflog i athrawon a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg a chost dyfarniad cyflog o 1%, y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion fod wedi cynllunio ar ei gyfer o dan y cap blaenorol ar gyflogau'r sector cyhoeddus.

Fel rhan o'r pecyn cyllido ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol a gyhoeddwyd ar 20 Tachwedd, dyrannwyd £7.5 miliwn ychwanegol ym mhob un o'r blynyddoedd 2018-19 a 2019-20. Bwriad y taliadau unigol hyn yw lliniaru ychydig o'r pwysau cyllidebol sy'n deillio o agenda cyni Llywodraeth y DU. Yn benodol, bwriedir i'r cyllid hwn gynorthwyo i liniaru'r pwysau uniongyrchol sy'n parhau o ran gweithredu dyfarniad cyflog 2018-19 athrawon a rhoi ychydig o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth gynllunio ar gyfer 2019-20.

Fel rhan o'r pecyn cyllido ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol, rydym hefyd wedi ysgrifennu ar y cyd â CLILC at y Canghellor i ailadrodd ein galwadau i Lywodraeth y DU ariannu costau cynyddol cyflogwyr yn llawn o ran newidiadau i bensiynau. Ni chawsom ymateb hyd yma.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa drefniadau amgen fyddai eu hangen os nad yw Llywodraeth y DU yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cyfraniadau pensiwn athrawon

Ymateb: Derbyn

Ein safbwynt cadarn yw bod Cyllideb yr Hydref yn gyfle a gollwyd gan Lywodraeth y DU i roi eglurder o ran ei newidiadau pensiwn. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud penderfyniad unochrog i gyflwyno'r newidiadau hyn a'i chyfrifoldeb hi yw sicrhau y cânt eu hariannu'n llawn, yn unol â'r egwyddorion yn y Datganiad ar Bolisi Ariannu.

Fel Llywodraeth gyfrifol, byddwn yn parhau i ystyried y sefyllfa gyllidebol mewn perthynas â pharhad o ansicrwydd ar y cyd ag unrhyw bwysau eraill y gwyddom amdanynt ac, wrth gwrs, y trefniadau wrth gefn sydd ar waith i reoli unrhyw risgiau i'r gyllideb nad ydynt yn wybyddus ar hyn o bryd.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer llywodraeth leol a byrddau iechyd i helpu i wella'r gwaith o gyfuno cyllidebau fel y darperir gwasanaethau di-dor.

Ymateb: Gwrthod

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sicrhau bod strwythurau ac adnoddau priodol ar waith er mwyn gallu darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig. Mae rheoliadau yn darparu ar gyfer sefydlu saith partneriaeth ranbarthol i ddwyn ynghyd y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, y trydydd sector a byrddau partneriaid eraill yn unol ag ôl troed y bwrdd iechyd.

Mae Cymru lachach yn egluro'r disgwyliad ar fyrddau partneriaethau rhanbarthol i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau di-dor.

Mae rheoliadau hefyd yn nodi'r gofynion i bartneriaid sefydlu a chynnal cyllidebau wedi'u cyfuno mewn cysylltiad â'u swyddogaethau llety cartrefi gofal erbyn mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn cefnogi'n sylweddol drefniadau comisiynu integredig ac yn

caniatáu i bartneriaid ganolbwyntio ar wella ansawdd yn ogystal â sicrhau gwell gwerth am arian.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru lunio amrywiaeth o ddulliau i roi cymorth ymarferol i bartneriaethau rhanbarthol i reoli cronfeydd rhanbarthol sydd wedi'u cyfuno.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar ar welliannau i ofynion byrddau partneriaethau rhanbarthol. Bydd rheoliadau diwygio yn ceisio rhoi eglurder ychwanegol o ran yr angen am gronfeydd rhanbarthol unigol wedi'u cyfuno. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried ei hymateb i'r materion a godwyd drwy'r ymgynghoriad hwnnw.

Dechreuodd y gofyniad hwn ym mis Ebrill 2018.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu, o leiaf, lefelau tebyg o gyllid mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol yn benodol i atal, ymladd ac yn y pen draw ddileu digartrefedd ieuencid.

Ymateb: Gwrthod

Caiff pob cyllideb ei phennu a'i hadolygu yn flynyddol ac nid yw'r gyllideb digartrefedd yn eithriad. Ni ddylai unrhyw berson ifanc fod yn ddigartref, ac rydym wedi ymrwymo i'n nod o ddileu digartrefedd ieuencid erbyn 2027. Mae angen dull Llywodraeth gyfan i fynd i'r afael â'r mater ac i'r perwyl hwnnw, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen trawsbortffolio a thraws-sector yn gynharach eleni, er mwyn rhoi trosolwg strategol er mewn hyrwyddo'r agenda hon yn y dyfodol.